Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Croeso i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Pwyllgor

Bwriedir i'r wybodaeth ddiweddaraf hon am weithgareddau diweddar y Pwyllgor a gweithgareddau yn y dyfodol ehangu cyfranogiad yng ngweithgareddau'r Pwyllgor a'ch helpu i ddarparu gwybodaeth ac arbenigedd i swyddogion ac Aelodau. Cafodd ei llunio gan y tîm clercio sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor.

Mae llif Twitter y Pwyllgor **@SeneddESS** yn cynnwys ein holl newyddion diweddaraf, a manylion am ymchwiliadau a chyfarfodydd.

Gwaith a gyflawnwyd - Hydref 2018

Diweddariad o'r cynllun gweithredu i wella cysylltedd ffonau symudol

Yn sgil cyflwyno'r cynllun gweithredu i wella cysylltedd ffonau symudol gan Lywodraeth Cymru ar 5 Hydref 2017, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i ganfod pa effaith y mae'r cynllun gweithredu i wella cysylltedd ffonau symudol wedi ei chael ar signal ffôn 12 mis yn hwyrach, ac a yw'r Llywodraeth wedi mynd i'r afael â'r prif heriau a phryderon. Cyhoeddwyd yr **adroddiad** (PDF 769KB) ar 24 Ionawr.

Ymchwil ac arloesi

Yn dilyn ymgynghoriad a ddenodd 20 o ymatebion, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth lafar gyda Phrifysgol De Cymru, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Aberystwyth, Colegau Cymru, Amgueddfa Cymru, Impact Innovation, y Ffederasiwn Busnesau Bach a Wesley Clover.

Fel rhan o'r ymchwiliad, ymwelodd y Pwyllgor â Phrifysgol De Cymru i gwrdd ag entrepreneuriaid ifanc i ddysgu mwy am yr arian a'r gefnogaeth a dderbyniant gan brifysgolion. Ymwelodd y Pwyllgor hefyd â Cancer Research UK yn Ysbyty Athrofaol Cymru, i adolygu'r amgylchedd ymchwil meddygol yng Nghymru.

Parhaodd yr ymchwiliad i fis Ionawr pan graffodd y Pwyllgor ar y Gweinidog Addysg, a bydd yn adrodd ar hyn yn hwyrach y tymor yma.

Gwefru cerbydau trydan yng Nghymru

Ym mis Medi, dechreuodd y Pwyllgor ymchwiliad byr i archwilio'r heriau a'r cyfleoedd i ddefnyddio mwy o gerbydau trydan a hybrid ar draws Cymru. Daeth y Pwyllgor â'i ymchwiliad i ben ym mis Rhagfyr, a chawsom 17 o ymatebion i'n hymgynghoriad.

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan nifer o arbenigwyr, yn eu plith cynrychiolwyr o'r Sefydliad Materion Cymreig, Canolfan Rhagoriaeth Cerbydau Trydan Prifysgol Caerdydd, Ynni Sir Gâr, National Grid ac Western Power.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi i ddechrau ar ffurf drafft yn ddiweddarach y tymor hwn, er mwyn caniatáu sylwadau pellach gan randdeiliaid.

Cyflwr y Ffyrdd

Ar 24 Hydref, cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad** (PDF 1MB) a oedd yn cynnwys 14 o argymhellion ac 16 casgliad. Trafodwyd yr adroddiad ac **ymateb** (PDF 231KB) Llywodraeth Cymru yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 9 Ionawr.

Gwerthu Cymru i'r Byd

Arweiniodd y Pwyllgor drafodaeth ar ei **adroddiad** (PDF 1.5MB) yn Siambr y Senedd ar Dachwedd 28. Yn ei **ymateb** (PDF 405KB), gwnaeth cyn-Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth dderbyn neu dderbyn mewn egwyddor pob un o'r 14 argymhelliad gan y Pwyllgor. Gellir gweld fideo o'r sesiwn ar **Senedd.tv**, ac mae'r **trawsgrifiad** ar gael hefyd.

Gweithgareddau'r Pwyllgor ar gyfer tymor y gwanwyn 2019

Dyfodol Trafnidiaeth Cymru

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal **ymchwiliad** i Ddyfodol Trafnidiaeth Cymru, gyda phwyslais arbennig ar lywodraethu a thryloywder.

Bydd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar:

- a yw llywodraethu, strwythur a chyllid Trafnidiaeth Cymru yn effeithiol ac yn dryloyw ar hyn o bryd
- dyfodol Trafnidiaeth Cymru o ran cyflawni'r polisi ar drafnidiaeth.

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal **ymchwiliad** i dair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Cymru, er mwyn adolygu pa mor dda y mae'r polisi'n cael ei gyflawni, gan ystyried unrhyw farn y gallai rhanddeiliaid ei chynnig ar fodelau eraill.

Sesiwn graffu flynyddol ar y Comisiynydd Traffig

Gwahoddodd y Pwyllgor Nick Jones, Comisiynydd Traffig Cymru, i roi tystiolaeth ar 23 Ionawr 2019.

Rhwystrau sy'n wynebu cwmnïau bach sy'n adeiladu tai

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal **ymchwiliad** byr i'r rhwystrau sy'n wynebu cwmnïau bach sy'n adeiladu tai.

Bargeinion Dinesig a Thwf : Flwyddyn yn Ddiweddarach

Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth ar Ionawr 23 a 31 i adolygu'r cynnydd a wnaed ers i'r Pwyllgor gyhoeddi ei **adroddiad** (PDF 1MB) ar Fargeinion Dinesig ac Economïau Rhanbarthol Cymru ym mis Tachwedd 2017.

Cylch gwaith

Cafodd y Pwyllgor ei sefydlu ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, gan gwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): datblygu economaidd; trafnidiaeth; seilwaith; cyflogaeth; sgiliau; a gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

Manylion cyswllt

Gallwch anfon neges e-bost at Dîm Clercio'r Pwyllgor: **SeneddESS@cynulliad.cymru**

Ffoniwch ni: **0300 200 6565**

Dilynwch ni ar Twitter: **@SeneddESS**

Gwefan: **www.cynulliad.cymru/seneddESS**

Aelodau'r Pwyllgor

Cadeirydd y Pwyllgor:
Russell George AC
Ceidwadwyr Cymreig

Mark Reckless AC
Grŵp Ceidwadwyr Cymreig

Hefin David AC
Llafur Cymru

Vikki Howells AC
Llafur Cymru

Jack Sargeant AC
Llafur Cymru

Joyce Watson AC
Llafur Cymru

Bethan Sayed AC
Plaid Cymru

David J Rowlands AC
UKIP Cymru